

Robin Coch Ewropeaidd (Erithacus rubecula)

# 2050 PENNAL 2050

## Cylchlythyr 7

# NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!



AM y tro cyntaf mewn cof byw, mae coeden Nadoligaidd yn ymfalchïo ym maes y pentref ym Mhennal.Mae'r goeden yn rhan o Pennal 2050, prosiect tirwedd uchelgeisiol (dysgwch fwy yn www.visitpennal.wales) sy'n ceisio galluogi strategaeth a chamau addasol i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, adeiladu trigolion gwydn a dyfeisgar a phrofi syniadau i hybu lles cymdeithasol ac economaidd mewn ardaloedd gwledig. Partneriaeth Pennal, grŵp o ffermwyr lleol, yw'r sefydliad arweiniol yn y prosiect.








Helpodd disgyblion Ysgol Gynradd Pennal i blannu'r goeden Nordmann 18 troedfedd o uchder a ddarparwyd drwy bartneriaeth rhwng Pennal 2050, Cyngor Cymuned Pennal, Canolfan Arddio Derwen, Cegidfa gyda goleuadau a roddwyd gan Bwyllgor Sioe Pennal a chyda chefnogaeth Pwyllgor Canolfan Pennal. Mae Alwyn Rees o Partneriaeth Pennal yn nodi: "Mae'r goeden yn rhan o ymdrechion ein prosiect i blannu coed yn gynaliadwy ac roeddem yn teimlo y byddai hefyd yn dod â gwên a hwyl yr ŵyl i'r gymuned." Ychwanegodd: "Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran gan gynnwys Andy (dde)a Kathy Joseph, perchnogion Meithrinfa Derwen a'u staff a helpodd ac a fu'n gofalu am y goeden hon am 17 mlynedd cyntaf ei bywyd."*(Golygydd – diolch i adeiladwyr Will a Colin am eu cymorth hefyd).*

pennalpartners@aol.com

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



European robin
(Erithacus rubecula)

# 2050 PENNAL 2050

## Newsletter 7

# HAPPY CHRISTMAS AND NEW YEAR!




FOR the first time in living memory, a festive tree is taking pride of place on the village green at Pennal.The tree is part of Pennal 2050, an ambitious landscape project (learn more at www.visitpennal.wales) which aims to enable adaptive strategy and action in tackling the effects of climate change, build resilient and resourceful residents and test ideas to boost social and economic well-being in rural areas. Partneriaeth Pennal, a group of local farmers, is the lead organisation in the project.








PUPILS of Ysgol Gynradd Pennal helped to plant the 18ft high Nordmann tree that was provided through partnership between Pennal 2050, Pennal Community Council, Derwen Garden Centre, Guilsfield with lights donated by the Pennal Show Committee and with support of the Pennal Canolfan Committee. Alwyn Rees of Partneriaeth Pennal points out: "The tree is part of our project's sustainable tree-planting efforts and we felt it would also bring some smiles and festive cheer to the community."He adds: "A big thank-you to all involved including Andy (right)and Kathy Joseph, owners of Derwen Nursery and their staff who helped and looked after this tree for the first 17 years of its life.*"(Editor – thanks to builders Will and Colin for their help too).*

pennalpartners@aol.com

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government